

Awyren

gan Iryna, 2024

0:00

(Awyren)

Helo bawb.

Ydych chi'n adnabod Pedr? Hynny yw, Pedr Fawr, yr artist a wnaeth fi o gwpanau a phlatiau wedi torri? Felly, yr awyren hon ydw i. Fe'm gwnaeth yn fuan ar ôl trasiedi Medi'r 11eg, 2001, yn Efrog Newydd. Wn i ddim, efallai ei fod yn cymharu breuder porslen â breuder bywyd dynol ond . . . ond yr hyn na wyddai yn sicr ydyw fod llestri mor siaradus!

O Dduw, y lleisiau hynny yn fy mhen eto! Byddwch ddistaw! Caewch eich cegau! Hen blatiau blin!

0:57

(Cwpan de 1)

Rydych chi mor anghwrtais i ni, Pedr bach. Sut ydych chi'n siarad â menywod? Roeddwn unwaith yn rhan o'r llestri te gorau a ddefnyddiwyd ar wyliau mawr yn unig.

(Cwpan de 2)

1:08

A dim ond ar lieiniau byrddau gwyn eira y rhoddodd fy mherchnogion fi.

(Cwpan de 3)

1:14

Cymerasant siwgr allan gyda gefelau arian. Roedd y rheini'n amseroedd da. Nid hynny nawr.

(Cwpan de 1)

1:20

Rhaid i chi fod yn gwrtais i ni, ddyn ifanc.

(Awyren)

1:24

O, jiw. Peidiwch byth â chwarae gyda hen gwpanau os nad ydych am wrando ar gwynion am hanner diwrnod. Roeddwn i ond eisiau iddyn nhw fod yn ddistaw. Dwi ond eisiau breuddwydio am yr awyr yn ddistaw. Y freuddwyd am sut un diwrnod byddaf yn hedfan fel awyren go iawn.

1:46

Byddaf yn hedfan yn y cymylau ar draws yr awyr las. Dydw i ddim yn gwybod sut i hedfan. Wn i ddim beth yw'r awyr a beth yw'r cymylau. Ond rwy'n siŵr ei fod yn rhywbeth anhygoel o brydferth. Mae awyrennau go iawn wrth eu

boddau. Ond does byth distawrwydd yn fy mhen. Yn hytrach, dwi'n gwrando ar straeon gwirion am giniawau a phartion te!